Drysau agored

(penderfyniad / diolchgarwch)

Pan oedd Andrew van der Bejl yn fachgen bach byddai wrth ei fodd yn chwarae efo gynnau. Dyna lle byddai'n neidio o ben craig ar gefn un o'r bechgyn eraill a'i drywanu â'i ddagr neu ei saethu â'i wn. Byddai criw o'r bechgyn yn chwarae rhyfel bob adeg o'r dydd. Os byddai rhywun yn gofyn i Andrew beth oedd am fod ar ôl tyfu i fyny yr ateb pendant fyddai, 'milwr'. Pan oedd yn 21 oed gwirfoddolodd i fod yn filwr, yn gomando, i fynd allan i frwydro yn Indonesia.

Ar ôl ychydig ddyddiau ar faes y frwydr cafodd ei daro gan fwled. Roedd wedi ei anafu'n ddrwg. Yn ôl y meddygon doedd dim llawer o obaith iddo. Ar brydiau byddai nyrs yn gofalu amdano ddydd a nos. Ond yn raddol roedd yn dechrau gwella. Cychwynnodd cyfeillgarwch rhyngddo ac un o'r nyrsys.

Byddai'n eistedd wrth ei ochr am hydoedd. Pan fyddai Andrew yn cysgu byddai'r nyrs yn darllen llyfr. Yr un llyfr oedd o bob tro. Gofynnodd Andrew iddi, ar ôl iddo ddeffro ynghanol y nos, "Bob tro rydw i'n deffro rydych yn darllen y llyfr tew yna. A hyd y gwela i yr un llyfr ydi o bob tro. Beth ydi enw'r llyfr ac ydio'n un difyr?"

Atebodd y nyrs, "Y Beibl ydi hwn. Mae'n sôn am Dduw a Iesu Grist ei Fab. Ydi, mae o'n llyfr diddorol iawn. Mae o'n dangos yn glir fod Duw yn caru pob dyn ac mae'n awyddus iawn i bobl garu ei gilydd."

Gwrandawai Andrew yn astud ar bob gair. Dechreuodd feddwl. Roedd yn cael digon o amser i feddwl yn yr ysbyty.

Un gyda'r nos gofynnodd i'r nyrs, "Wnewch chi ddarllen un stori o'r Beibl i mi? Fe gewch chi ddewis y stori orau un!"

Trodd y nyrs y tudalennau a daeth at y bymthegfed bennod o efengyl Luc. Dechreuodd ddarllen yn araf hanes y tad a'r ddau fab a phan ddaeth at y geiriau, "Tosturiodd wrtho, rhedodd ato, a rhoes ei freichiau am ei wddf a'i gusanu", dechreuodd Andrew grio'n ddistaw.

"Beth sy'n bod?" gofynnodd y nyrs iddo.

"Dim byd," meddai yntau. "Ewch ymlaen i orffen y stori." Bu Andrew yn meddwl yn hir am y stori am y tad yn derbyn y mab.

Pan ddaeth y nyrs heibio y noson wedyn dywedodd wrthi,

"Mae'r bwled wedi rhoi terfyn ar un math o fywyd ond mae'r Beibl wedi agor llwybr newydd i mi."

Gadawodd yr ysbyty a phenderfynodd ei fod am astudio'r Beibl a cheisio byw neges y Beibl. Teimlai fod Duw yn ei alw i fynd â Beiblau i'r gwledydd lle roedden nhw'n brin. Llanwodd ei Volkswagen Beetle glas yn llawn o Feiblau a'u smyglo i'r gwledydd Comiwnyddol, sef Gwlad Pŵyl, Gorllewin yr Almaen, Hwngari a Bwlgaria ac yna yn y diwedd i Rwsia.

Erbyn hyn mae miliynau o Feiblau wedi eu smyglo i dros 60 o wledydd lle mae Cristnogaeth yn cael ei wahardd ac ymhlith y gwledydd hynny heddiw mae China. Mewn un noson fe smyglwyd 232 tunnell o Feiblau ar gwch camlas i mewn i'r wlad.

Y rhyfeddod ydi fod un adnod o efengyl Luc wedi trawsnewid y gŵr ifanc i fod yn un o smyglwyr mwyaf Duw ddiwedd yr 20fed ganrif.

Adnod: "Gadewch inni wledda a llawenhau, oherwydd yr oedd hwn, fy mab, wedi marw, a daeth yn fyw eto." Luc 15:23–24

Gweddi: Wnei di fy helpu, O Dduw, i ddysgu darllen a deall y Beibl. Amen.

Trafod:

- Beth oedd pwrpas smyglo Beiblau i wledydd Comiwnyddol?
- Chwiliwch am fwy o hanes ymgyrch y Brawd Andrew, "Open Doors".